# Rhaglen Gyflawn

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 11EG MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Canolfan Busnes Conwy Business Centre**

Pwynt Cyswllt


**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**


(Dosbarthwyd 4 Mehefin 2025)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Gary Pritchard - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Dave Hughes - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Nia Jeffreys - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Edgar Wyn Owen – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – materion Cynllunio yn unig

Prif Swyddogion

Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Alwyn Jones – Prif Weithredwr Dros Dro - Cyngor Wrecsam

Swyddogion Statudol

Alwen Williams - Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-Bwyllgor
Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 8fed o Fai 2025 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir Gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd a hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

## 6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PRIF WEITHREDWR CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

I gyfweld ymgeiswyr ar gyfer y swydd

**CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

**08/05/25**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych)

**Prif Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych)

**Eraill a Wahoddwyd:** David Fitzsimon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Iwan Evans (Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol – Cyngor Gwynedd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), ac Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) oherwydd ei fod yn ffrind personol i un o'r ymgeiswyr.

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni fu iddo gymryd rhan yn ystod y drafodaeth.

Nododd yr Aelodau a'r Prif Swyddogion eraill eu bod yn adnabod rhai o'r ymgeiswyr mewn cyd-destun proffesiynol, ond nid yn bersonol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

**Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

**5. PENODI PRIF WEITHREDWR AR GYFER CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG - TYNNU RHESTR FER**

Adroddodd Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd) bod deg cais wedi ei dderbyn am y swydd gyda phedwar yn cyfateb yn llawn i feini prawf hanfodol gofynion y swydd.

Argyhoeddwyd yr Aelodau bod y swydd wedi ei hysbysebu yn ddigonol a bod yr ystod eang o ymgeiswyr yn tystiolaethu hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer.

**PENDERFYNWYD:**

**RHOI PEDWAR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER AR GYFER PENODI PRIF WEITHREDWR AR GYFER CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygwyd y byddai'r ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfres o ymarferion ar-lein a chyda seicolegwyr busnes. Ategodd y byddai Canolfan Asesu yn cael ei chynnal, ynghyd a threfniadau asesu pellach o dan arweiniad yr Awdurdod Lletyol. Bydd adborth o ymatebion a pherfformiad yr ymgeiswyr yn yr ymarferion a'r ganolfan asesu yn cael eu cyflwyno ar lafar i'r Cydbwyllgor Corfforedig ar ddiwrnod y cyfweliadau.

Trafodwyd testun cyflwyniad 10 munud i'r ymgeiswyr ynghyd a chwe cwestiwn (drafft) ar gyfer y cyfweliadau. Yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd, adroddwyd y bydd fersiwn derfynol o'r cwestiynau yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau cyn diwrnod y cyfweliadau.

Diolchwyd i'r swyddogion am y gwaith trylwyr ac am gwblhau'r broses yn unol â'r drefn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 11:00

____________________________________

(Cadeirydd)